# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 26 MEHEFIN 2023

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Beth Lawton a Dewi Owen.

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones (Cadeirydd), Mr Mark Jones a Mr Dave Wareing.

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Mr Richard Parry Hughes (Aelod Pwyllgor Cymuned).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cadeirydd, Mr Hywel Eifion Jones, fuddiant personol yn eitem 6 – Adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol i Gymru – Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, oherwydd ei fod yn aelod lleyg ar Banel Dyfarnu Cymru, a bod cyfeiriad at y panel yn yr adroddiad.

Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 2023 ynghyd â'r Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 18 Ebrill, 2023 fel rhai cywir, yn amodol ar y cywiriad isod:-

<u>Cofnodion Cyfarfod Arbennig 18 Ebrill, 2023</u>
<u>Eitem 3 – Cŵyn o Dorri'r Cod Ymddygiad a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</u>

Cywiro brawddeg gyntaf paragraff 6 i ddarllen:-

*"Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ysgrifenedig ymchwiliad yr Ombwdsmon, y dogfennau pellach a gyflwynwyd ymlaen llaw gan yr Aelod a'r Ombwdsmon yn unol â threfn cyn-wrandawiad y Pwyllgor, a'r dystiolaeth gan yr Awdurdod yn cadarnhau <u>nad oedd darpariaeth gyfieithu ar gael</u> pan dderbyniwyd yr e-byst gan yr Aelod."*

**5. ADRODDIAD AR GANLYNIAD YMCHWILIAD I GŴYN YN ERBYN Y CYNGHORYDD LOUISE HUGHES O GYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn manylu ar ganlyniad ymchwiliad i gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Louise Hughes o Gyngor Gwynedd, yn unol â darpariaethau Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd).

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, cadarnhawyd bod y Cynghorydd Louise Hughes wedi cyflwyno llythyr o ymddiheuriad i'r achwynydd erbyn hyn a bod y cyfnod atal wedi dod i ben.

Gan gyfeirio at yr Hysbysiad o Benderfyniad y Pwyllgor Safonau (oedd ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad), nodwyd bod angen cywiro brawddeg gyntaf paragraff 6 i ddarllen:-

*"Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ysgrifenedig ymchwiliad yr Ombwdsmon, y dogfennau pellach a gyflwynwyd ymlaen llaw gan yr Aelod a'r Ombwdsmon yn unol â threfn cyn-wrandawiad y Pwyllgor, a'r dystiolaeth gan yr Awdurdod yn cadarnhau <u>nad oedd darpariaeth gyfieithu ar gael</u> pan dderbyniwyd yr e-byst gan yr Aelod."*

Diolchodd y Cadeirydd i bawb o'r aelodau am eu mewnbwn ar y diwrnod, ac i'r Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau a'r Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth a'r swyddogion i gyd am eu holl waith yn ystod y broses o drefnu a chynnal y gwrandawiad.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad i gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Louise Hughes o Gyngor Gwynedd, gan nodi mân newid golygyddol, a'i anfon at y Swyddog Monitro, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Y Cynghorydd Hughes a'r achwynydd, yn unol â gofynion y Rheoliadau.**

## 6. ADOLYGIAD O'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL I GYMRU – YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried a dod i farn ar ymatebion i'r Ymgynghoriad ar argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (adroddiad Richard Penn) er caniatáu eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Gofynnwyd yn benodol am farn yr aelodau ar yr ymatebion drafft canlynol:-

***C4. Ydych chi'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r weithdrefn caniatâd i apelio a amlinellir yn yr argymhelliad hwn? Os nad ydych, pa opsiynau eraill fyddech chi'n eu hawgrymu?***

*Ydym.*

*Sylwadau: Mae'n ymddangos yn briodol y dylai'r Ombwdsman allu gwneud sylwadau ar geisiadau am ganiatâd i apelio ac y dylai'r broses ganiatáu amser i wneud sylwadau.*

*Dylid fod gofyn penodol hefyd i hysbysu Swyddog Monitro perthnasol yn syth hefyd fod apêl wedi ei derbyn gan fod bodolaeth apêl yn ganolog i gychwyn cyfnod atal neu beidio.*

***C13. Hysbysebu am aelodau annibynnol o'r pwyllgorau safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofyn i hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol ar bwyllgorau safonau mewn papurau newydd?***

*Ydym.*

*Sylwadau: Mae costau hysbysebion o'r fath yn uchel a dengys profiad anecdotaidd fod y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dod trwy sianeli eraill megis gwefannau neu rwydweithiau presennol Aelodau Unigol. Mae'n bwysicach sicrhau bod ymgeiswyr cymwys o amrediad eang o gefndiroedd yn cael eu denu i'r rôl ac felly dylai LlC gyflwyno canllawiau ar recriwtio cynhwysol.*

***C14a. Cyn-weithwyr cyngor yn eistedd fel aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar gyn-weithwyr cyngor rhag bod yn aelodau annibynnol o bwyllgor safonau eu cyflogwr blaenorol?***

*Nac ydym. Cryfder y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd yw bod yn rhaid iddynt gynnwys mwyafrif o Aelodau Annibynnol y gellid dweud heb amheuaeth eu bod yn wirioneddol annibynnol ac yn amhleidiol.*

***C14b. Os ydych chi, beth, yn eich barn chi, fyddai'n gyfnod gras addas rhwng cyflogaeth a phenodi i bwyllgor safonau, ac a ddylai hyn fod yr un fath ar gyfer holl weithwyr cynghorau, neu'n hirach ar gyfer y rheini a oedd gynt mewn swyddi â chyfyngiadau statudol neu wleidyddol?***

*Ni ddylai swyddogion sydd wedi'u cyfyngu'n wleidyddol fedru gwasanaethu fel Aelodau Annibynnol. O ran swyddogion eraill, mae'r safbwynt hwnnw'n fwy cynnil ond awgrymir nad ddylid caniatáu hyn. Os, er gwaethaf y farn hon, yw LlC yn dymuno caniatáu iddynt fod yn gymwys yna mae angen i'r cyfnod gras ar gyfer cyn-weithwyr fod yn hir i leihau'r canfyddiad fod y cyn-weithiwr dal yn cael ei effeithio oherwydd ei gysylltiad blaenorol â'r cyngor. Dylid gosod y cyfnod gras yn gyfnod penodol o megis 5 mlynedd neu gellid bod yn hyblyg ar sail hyd eu gwasanaeth (lluosog) gyda neu heb leiafswm.*

***C16. Pwyllgorau safonau – galw tystion a sancsiynau: A ddylai pwyllgorau safonau gael y pŵer i alw tystion?***

*Dylai.*

*Sylwadau: Mae'r un ystyriaethau a gyflwynwyd yn yr ymateb i Gwestiwn 5 yn berthnasol fan hyn. Heb ei bwerau i ymdrin â dirmyg, byddai angen modd o orfodaeth ar y mecanwaith i gyflwyno gwŷs, megis efallai'r pŵer i geisio am warant gan Lys yr Ynadon.*

***C21. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys ar yr argymhellion hynny yn yr Adroddiad nad oes cwestiwn penodol wedi'i gynnig ynglŷn â hwy?***

*Oes*

*Sylwadau:*

*Mae dau argymhelliad sy'n gofyn am newid deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynigion gweithredu ar eu cyfer. Byddai y Cyngor yn dymuno gweld gweithredu deddfwriaethol i gefnogi'r argymhellion a ganlyn:*

1) *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynnig i'w gwneud yn fandadol i gynghorydd adrodd am ei ymddygiad troseddol ei hun, sy'n ymddangos yn afresymegol pan fo gorfodaeth i eraill wneud hynny.*

2) *Byddai darpariaeth o fewn y cod fod hyfforddiant yn orfodol yn cryfhau unrhyw ymdrech i berswadio'r cynghorydd hwnnw i fynychu. Ymhellach, pe bai ymdrechion i argyhoeddi'r cynghorydd i fynychu yn profi i fod yn aflwyddiannus byddai darpariaeth o'r fath wedyn o leiaf yn darparu sail gadarn i ymdrin â'u cyndynrwydd.*

*Byddai'r Cyngor (ar farn mwyafrif) felly'n cefnogi cynnwys ymrwymo i gwblhau hyfforddiant o fewn y datganiad derbyn swydd, fyddai'n ymddangos yn fecanwaith addas. Yn yr un modd, gallai'r cod model gynnwys ymrwymiad i gwblhau hyfforddiant. Gallai hyn fod un ai i hyfforddiant ar y cod ei hun neu i gwblhau unrhyw hyfforddiant y mae'r cyngor yn ei ddiffinio fel gofynnol i alluogi mwy o ddisgresiwn lleol.*

*Noder y mynegwyd y farn hefyd pe bai cynghorydd yn cael ei ethol yn benodol ar blatfform na fyddai ef yn mynychu hyfforddiant yna byddai'n anghywir cyflwyno unrhyw gosb am fethu â mynychu.*

*Ymhellach, gwnaed sylw fod clercod yn rhan bwysig o strwythur llywodraethu cynghorau tref a chymuned. Er bod darpariaeth wedi'i gwneud sy'n disgwyl i gynghorwyr fynychu hyfforddiant, nid oes ymrwymiad tebyg o ran y clercod, ac fe ddylai fod.*

3) *Mae mater wedi codi'n ddiweddar ynghylch pwerau'r Ombwdsman i wneud cyfeiriadau pan fo cynghorydd hefyd ar awdurdod perthnasol arall (h.y. awdurdod gyda'i bwyllgor safonau ei hun). Ar hyn o bryd, nid oes pŵer penodol i'r Ombwdsman gyfeirio achosion i fwy nag un awdurdod ar yr un amser. Efallai y bydd hyn yn angenrheidiol yn ddibynnol ar p'un a fyddai canfyddiad y pwyllgor safonau mewn prif awdurdod hefyd yn rhwymo awdurdod perthnasol megis parc neu awdurdod tân.*

*E.e pan fo cynghorydd yn cael ei atal gan gyngor sir am weithrediadau yn ei fywyd preifat sy'n dwyn anfri ar eu swydd. Mae'r cynghorydd hefyd ar awdurdod tân. Gall y gweithrediadau hynny hefyd ddwyn anfri ar eu swydd ar yr awdurdod tân. A yw'r cyfnod atal o'r cyngor sir hefyd yn atal y cynghorydd yn awtomatig o'r awdurdod tân neu a fyddai pwyllgor safonau'r awdurdod tân ei hun angen gwrando ar y mater? Ymddengys mai'r olaf yw'r sefyllfa fwyaf tebygol.*

*Pe bai angen i'r Awdurdod Tân ac Achub gynnal ei wrandawiad ei hun, yna gall fod yn ddefnyddiol rhoi'r pŵer i OGCC wneud cyfeiriad i sawl awdurdod yr un pryd (y gellid ei ddehongli trwy ddefnyddio'r rheolau dehongli statudol fod yr unigol yn golygu'r lluosog hefyd). I'r gwrthwyneb, os tybir nad yw penderfyniad pwyllgor safonau'r prif gyngor yn effeithio ar yr awdurdod tân yna gellir diffinio hyn mewn deddfwriaeth o ran graddau'r cyfnod atal a beth mae'r term 'atal' yn ei olygu gan nad oes diffiniad technegol ohono mewn unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth.*

Pwyntiau'n codi o'r drafodaeth:-

- C16 – Awgrymodd aelod fod gorfodi presenoldeb tyst mewn gwrandawiad braidd yn llawdrwm. Nid yw'r achosion yn rhai troseddol, a hyd yn oed pe gellid gorfodi rhywun i ddod i wrandawiad, ni ellid eu gorfodi i roi tystiolaeth. Er hynny, roedd y Pwyllgor yn gyffredinol o'r farn y dylai'r hawl gorfodi fod yna fel pŵer gwrthgefn petai ei angen.

- C21(1) – Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd bod bodolaeth materion troseddol yn ddata personol sensitif iawn o ran gwarchodaeth, ac felly na fyddai'n briodol rhoi gwybod i arweinyddion grwpiau gwleidyddol fod cynghorydd wedi adrodd am ei ymddygiad troseddol ei hun. Byddai gadael i'r Swyddog Monitro wybod am y mater troseddol ar sail 'yr angen i wybod' gofalus iawn yn briodol.

- C21(2) – Nodwyd y dylid argymell yn gryf i aelodau eu bod yn mynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, ond mai mater i'r aelod unigol yw penderfynu a yw am

fanteisio ar y cynnig ai peidio, a phe na fyddai aelodau'n ei dderbyn, gellid dal hynny'n eu herbyn mewn unrhyw achos o dorri'r Cod yn y dyfodol.

Canmolwyd yr hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer aelodau newydd Cyngor Gwynedd yn dilyn yr etholiadau ym Mai 2022, ond mynegwyd siomedigaeth nad oedd pawb wedi manteisio ar y cyfle yma.

Nodwyd bod yna lawer o gyfeiriadau yn y wasg y dyddiau hyn at fwlio, ac awgrymwyd bod angen cynnwys yr elfen yma fel rhan o'r hyfforddiant. Mewn ymateb, eglurwyd bod rhan o'r hyfforddiant yn ymdrin â materion o gwmpas parch a dim bwlio, ac ati. O ran y sefyllfa'n gyffredinol yng Nghyngor Gwynedd, credid bod y negeseuon hynny'n treiddio drwodd ar y funud, ond nid oedd lle i laesu dwylo byth mewn sefyllfaoedd fel hyn.

Pwysleisiwyd y dylai'r hyfforddiant fod yn fandadol, ac er nad oes modd gorfodi neb, dylai pawb, yn gynghorwyr sir a chynghorwyr tref a chymuned, sylweddoli mor bwysig ydyw ac ymrwymo iddo.

Awgrymwyd nad oedd y frawddeg '*Byddai'r Cyngor (ar farn mwyafrif) felly'n cefnogi cynnwys ymrwymo i gwblhau hyfforddiant o fewn y datganiad derbyn swydd ...'* yn ddigon cryf, o bosib', ond nodwyd hefyd ei fod yn gam ymlaen, gan nad oedd yr ymrwymiad yna o gwbl ar hyn o bryd.

I'r gwrthwyneb, awgrymwyd na ddylid gwneud yr hyfforddiant yn gwbl orfodol. Er hynny, dylid hysbysu'r aelodau o bwysigrwydd y Cod a'r ffaith y gallai peidio mynychu'r hyfforddiant gael ei ddal yn eu herbyn mewn unrhyw achos o dorri'r Cod yn y dyfodol. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Wrth arwyddo'r datganiad derbyn swydd, bod unigolion yn ymrwymo i'r swydd cynghorydd a hefyd i'r Cod, ac felly roedd y waelodlin yn cael ei gosod yna.
- Petai'r datganiad yn cael ei addasu fel bod unigolyn yn ymrwymo i dderbyn yr hyfforddiant ar y Cod hefyd, byddai cwestiwn yn codi wedyn o ran beth fyddai canlyniadau peidio cydymffurfio â hynny.
- Na chredid y gellid gorfodi rhywun i fynychu hyfforddiant, ond mi fyddai yna ganlyniadau o ran, efallai'r Cod Ymddygiad, neu fater o gyfeirio'r pwynt i'r Pwyllgor Safonau am ymateb, a byddai dyletswydd hefyd ar yr arweinyddion grwpiau gwleidyddol i roi pwysau ar aelodau i fynychu'r hyfforddiant.
- Mai un o'r cwestiynau cyntaf a ofynnir gan yr Ombwdsmon ar ôl derbyn cŵyn yw pa hyfforddiant ar y Cod mae'r aelod dan sylw wedi fynychu.
- Bod unrhyw beth gorfodol yn codi cwestiwn o ran yr orfodaeth y tu cefn iddo, ond y byddai'r datganiad yma o leiaf yn ymrwymiad i fynychu hyfforddiant ar y Cod.

• C21(3) – Cytunwyd yn gryf â'r ymateb drafft. Nodwyd nad oedd y sefyllfa bresennol yn gwneud synnwyr i'r cyhoedd, a'i bod yn bwysig sicrhau bod gan y cyhoedd hyder yn safon yr hyfforddiant ac ymddygiad y cynghorwyr.

Gofynnwyd i'r Swyddog Monitro gynnwys elfennau o'r drafodaeth uchod ynghylch sut y byddai hyfforddiant gorfodol yn gweithio'n ymarferol, datgan troseddau a gorfodi tystion yn yr ymateb i'r Ymgynghoriad.

Yna nododd y Cadeirydd y dymunai dynnu sylw at yr ymateb drafft canlynol:-

***C6. A ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r drefn ar gyfer cyfeirio penderfyniadau apeliadau yn ôl i bwyllgorau safonau?***

*Na ddylid*

*Sylwadau: mae'r arfer wedi'i hen sefydlu y dylai tribiwnlysoedd apêl gyfeirio achosion yn ôl i'r prif benderfynydd i gael eu hailystyried. Er mai 'dewr' fyddai Pwyllgor Safonau a feiddia anghytuno â'r Panel byddai'r newid arfaethedig yn gwneud i ffwrdd â'r hawl iddynt gael dewis gwneud hynny a byddai hyn yn lleihau eu rhyddid i weithredu.*

Nododd y Cadeirydd:-

- Nad oedd ganddo deimladau cryf ar y mater, ond mewn unrhyw faes arall yn y gyfraith, byddai unrhyw un sy'n mynd i apêl yn disgwyl y byddai penderfyniad yr apêl yn sefyll.
- Er bod gan bwyllgorau safonau'r hawl i anwybyddu penderfyniad apêl, bod Panel Dyfarnu Cymru yn trafod achosion yn fwy aml na phwyllgorau safonau a'u bod yn gallu sicrhau cysondeb ar draws Cymru hefyd ar y mater.
- Y gallai cynghorwyr deimlo nad oes pwynt mynd i apêl os yw'r pwyllgor safonau yn gallu anwybyddu penderfyniad yr apêl.
- Y byddai'n rhaid i bwyllgor safonau sy'n dewis anwybyddu penderfyniad apêl gyflwyno rhesymau cryf iawn dros wneud hynny.

Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Bod y drefn apelio yn yr achosion hyn yn ymdebygu i adolygiad barnwrol lle mae'r corff apelio (e.e. tribiwnlys apêl) yn adolygu penderfyniad y corff penderfynu (e.e. pwyllgor safonau) ac yn rhoi eu barn hwy ar yr achos, ond bod y penderfyniad terfynol ar y mater yn nwylo'r corff penderfynu.
- Ei bod yn anorfod felly bod y pwyllgor safonau yn gorfod dod i farn ar y mater, gan roi sylw i sylwadau'r tribiwnlys apêl.
- Bod angen rhesymau cryf iawn dros ddod i ganlyniad gwahanol i'r tribiwnlys apêl, ac roedd yn hanfodol bod y rhesymeg dros wneud hynny yn cael ei chofnodi'n glir, er mwyn dangos bod y penderfyniad apêl wedi derbyn sylw dyladwy, ond ar falans, bod y pwyllgor yn parhau o'r farn y dylai eu penderfyniad gwreiddiol sefyll.

Gofynnwyd i'r Swyddog Monitro wneud ychwanegiad i'r ymateb drafft i wneud yn glir bod angen rhesymeg gref iawn dros fynd yn groes i farn tribiwnlys apêl a bod hynny'n cael ei roi allan i'r cyhoedd ac i'r cynghorydd perthnasol ar y pryd.

Nodwyd y croesawid y ffaith mai'r pwyllgor safonau sydd â'r gair olaf ar y mater.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ymatebion drafft i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol i Gymru (yn Atodiad 2 i'r adroddiad), er caniatáu eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, gyda'r ychwanegiad a nodir isod:-**

- **Cynnwys elfennau o drafodaeth y pwyllgor ynghylch sut y byddai hyfforddiant gorfodol yn gweithio'n ymarferol, datgan troseddau a gorfodi tystion.**
- **Nodi'n ychwanegol dan C6 (*trefn ar gyfer cyfeirio penderfyniadau apeliadau yn ôl i bwyllgor safonau*) ei bod yn hanfodol bod y rhesymeg dros anghytuno â barn tribiwnlys apêl yn cael ei chofnodi'n glir, er mwyn dangos bod y penderfyniad apêl wedi derbyn sylw dyladwy, ond ar falans, bod y pwyllgor yn parhau o'r farn y dylai eu penderfyniad gwreiddiol sefyll.**

## 7. HUNAN ASESIAD A RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i:-

- gynnal hunan asesiad o waith ac allbynnau'r pwyllgor yn ystod 2022/23, ac:-
- ystyried rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2023/24.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu'r canlynol fel hunan asesiad y Pwyllgor Safonau o'i berfformiad yn 2022/23.**

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3/4) | TYSTIOLAETH | CAMAU PELLACH |
|---|---|---|---|
| 1. Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau | 1. | Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill.<br><br>Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn<br><br>Pwyllgor wedi derbyn adroddiad ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Parhau i fynychu a chefnogi |
| 2. Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad | 2. | Swyddog Monitro a'i dîm yn darparu cyngor ac arweiniad mewn cyfarfodydd ac ar sail un i un i aelodau. | Trefnu i gynnal cyrsiau Cod Ymddygiad pellach yn ystod y flwyddyn i ddod. |
| 3. Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad | 1. | Dim achlysur wedi codi i ddiwygio'r Cod. | |
| 4. Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad | 3. | Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsmon a Phanel Dyfarnu Cymru | Parhau i fonitro ac ystyried dulliau amgen o dderbyn gwybodaeth<br><br>Derbyn adroddiadau rheolaidd o Lyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.<br><br>Derbyn adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch. |
| 5. Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi | 3. | Cynhaliwyd hyfforddiant anwytho ar gyfer holl aelodau Cyngor Gwynedd | Gosod gofyn penodol i symud ymlaen gyda'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **aelodau ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad** | | **yn dilyn yr etholiadau.** | **hyfforddiant yn y rhaglen waith am y flwyddyn nesaf.** |
| **6. Rhoi goddefebau i aelodau** | **1.** | **Dim ceisiadau wedi eu hystyried dan y drefn newydd.** | |
| **7. Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon** | **1.** | **Cynhaliwyd 1 gwrandawiad yn ystod y flwyddyn ynglŷn ag Aelod Cyngor Tref a Chymuned** | |
| **8. Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyodd gydag ymchwiliad** | **Dim angen gweithredu.** | | |
| **9. Monitro cydymffurfiaeth Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ar y Cyngor a'u dyletswyddau o dan Adran 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000.**<br><br>**Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ar y Cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.** | **3.** | **Cynhaliwyd sesiwn briffio gydag Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ynglŷn â'r ddyletswydd newydd.**<br><br>**Cytunwyd Protocol ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd.** | **Symud ymlaen i ddatblygu ar y drefn, ynghyd â'r drefn adrodd yn ôl i'r pwyllgor.** |
| **10. Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned** | **2.** | **Swyddog Monitro a'i dîm yn darparu cyngor ac arweiniad i gynghorau, clercod ac aelodau.**<br><br>**Cynhaliwyd prosiect ymgysylltu sylweddol gan y Cadeirydd a'r Aelod Tref a Chymuned arweiniodd at adroddiad gydag argymhellion penodol a chynllun gwaith.** | **Angen adfer y rhaglen ar sail rithiol yn y flwyddyn nesaf.** |

| | | | |
|---|---|---|---|

**(b) Cymeradwyo'r rhaglen waith a ganlyn ar gyfer 2023/24:-**

**<u>26 Mehefin, 2023</u>**
**Adroddiad Blynyddol**
**Honiadau yn erbyn Aelodau**
**Llyfr Achosion yr Ombwdsmon**
**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ymateb i Adroddiad Penn**

**<u>6 Tachwedd, 2023</u>**
**Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch**
**Cofrestr Datgan Buddiant**
**Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon**
**Honiadau yn erbyn Aelodau**
**Adolygu Gweithrediad Protocol Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol**
**Adolygu Trefniadau Datrysiad Mewnol**
**Derbyn Adroddiad o Fforwm Safonau Cymru**
**Adroddiad ar y Trefniadau ar gyfer delio gyda chyfathrebu wedi gwrandawiadau.**

**<u>19 Chwefror, 2024</u>**
**Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu**
**Honiadau yn erbyn Aelodau**
**Hunan Asesiad a Rhaglen Waith**
**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2022-23

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn amgáu drafft o adroddiad blynyddol y pwyllgor ar gyfer 2022/23. Gwahoddwyd sylwadau a chymeradwyaeth y pwyllgor i'r ddogfen.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr adroddiad eleni, am y tro cyntaf, yn cyfeirio at y ddyletswydd newydd i arweinyddion grwpiau gwleidyddol gymryd elfen o gyfrifoldeb dros hyrwyddo ymddygiad da a chydweithredu â'r Pwyllgor Safonau. Nodwyd:-

- Ei bod yn ddyddiau cynnar o ran y drefn yma, ond bod gwaith wedi digwydd o ran annog aelodau i gymryd rhan mewn hyfforddiant Cod Ymddygiad ynghyd â sefydlu'r drefn a chytuno ar brotocol ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd newydd i'r dyfodol.
- Bod angen symud ymlaen i wneud gwaith pellach ar y ddyletswydd ac i ddatblygu'r drefn gyfathrebu o gwmpas hyn yn fwy helaeth fel mae'r trefniadau yn symud yn eu blaenau.
- Bod elfen o'r drefn yn adweithiol i amgylchiadau sy'n codi o gwmpas materion ymddygiad aelodau. Byddai'n rhaid cadw llygaid ar y sefyllfa yma, a phetai sefyllfa'n codi, roedd y Protocol yn gosod trefn glir ar gyfer mynd at yr Arweinyddion i drafod unrhyw bryderon penodol sy'n codi.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei fod yn fodlon bod yr arweinyddion wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd yn ystod y flwyddyn a bod sail i symud ymlaen dros y flwyddyn nesaf i adeiladu ar y gwaith yma.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod bwriad i gynnal cyfarfodydd lled reolaidd gyda'r arweinyddion. Nodwyd hefyd bod bwriad i drefnu cyfarfod anffurfiol rhwng holl aelodau'r Pwyllgor Safonau, yr Arweinyddion a'r Prif Weithredwr, o bosib', i drafod y

ddyletswydd newydd ar lefel ymarferol a'r ffordd orau ymlaen. Pwysleisiwyd nad oedd bwriad i drafod achosion unigol.

Gofynnwyd i'r Swyddog Monitro fwrw ymlaen i drefnu'r cyfarfod a thrafod y rhaglen gyda'r Cadeirydd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022-23 i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 6 Gorffennaf, 2023, yn amodol ar wneud mân addasiadau i fywgraffiadau'r aelodau.**

**9. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd - adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn cyflwyno gwybodaeth am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.00 y.h.

____________________________

**CADEIRYDD**